The message is displayed incorrectly? View this email online.

# Cylchlythyr Gwanwyn

Mawrth 2023

Annwyl Landlord / Asiant,

A oes diddordeb gennych mewn diweddariadau ar y sector rhentu preifat sy’n effeithio ar Gymru? Darllenwch ymlaen...
Cadwch lygad am ymgynghoriad ar drwyddedu arfaethedig ar lety ymwelwyr a sut y gall hyfforddiant Rhentu Cartrefi ddiogelu eich busnes.

Mae’r pynciau eraill yn cynnwys:

- Pwysau parhaus i gartrefu teuluoedd sy'n agored i niwed, gan gynnwys rhai o Wcráin
- Ymgynghoriad Carbon Monocsid
- Lansio Dangosfwrdd Perfformiad Ynni

---

## | Argyfwng Wcráin

## Oes gennych eiddo ar gael i'w rentu?

Mae straeon sy'n cynhesu'r galon am y noddfa gafodd pobl Wcráin yng Nghymru a'u cyfranogiad llwyddiannus mewn ysgolion a chymunedau, yn parhau i wneud y penawdau; ond mae heriau'n parhau. Bydd gan bobl â fisa hyd at dair blynedd i aros yn y DU a nawr mae angen cartrefi mwy hirdymor er mwyn helpu pobl i symud ymlaen i gartrefi hirdymor mwy sefydlog.

Mae cartrefi rhent preifat yn ddelfrydol; os oes eiddo ar gael gennych nawr neu yn y dyfodol, cysylltwch â'ch awdurdod lleol gan ddefnyddio'r pwyntiau cyswllt uniongyrchol a restrir isod. Mae eich help chi yn gwneud gwahaniaeth mawr!

Cysylltu â fy Awdurdod Lleol

Fel arall, gallech ystyried cynnal unigolyn neu deulu. Gweler canllawiau ar gynnal yma.

---

## | Rhentu Cartrefi



## Hyfforddiant Rhentu Cartrefi

Mae Rhentu Cartrefi wedi dod a newid enfawr i sut mae landlordiaid yn rhyngweithio â'u tenantiaid a'r safonau y mae'n rhaid i'r eiddo eu bodloni. Er mwyn gweithredu'n effeithiol yn y farchnad rhaid i landlordiaid ddeall y trefniadau newydd. Gellid gosod cosbau cyfreithiol ac ariannol os cewch chi bethau yn anghywir hi'n anghywir.

Mae gan y rhai sydd wedi derbyn trwydded Rhentu Doeth Cymru ers Gorffennaf 2020 amod trwydded sy'n gwneud hyfforddiant Rhentu Cartrefi yn orfodol. Y diwrnod olaf ar gyfer cwblhau hyfforddiant oedd 28 Chwefror 2023.

Os oedd hyn yn berthnasol i chi ac nad ydych wedi cwblhau'r hyfforddiant eto, gallech fod yn torri amodau eich trwydded.

Os nad oedd y terfyn amser yn berthnasol i chi - efallai eich bod yn anadlu ochenaid o ryddhad. Ond gofynnwch i chi'ch hun, pam fyddech chi'n aros? Mae'r hyfforddiant yn symleiddio deddfwriaeth gymhleth a dogfennau canllaw amrywiol ac yn cyflwyno'r wybodaeth mewn fformat hawdd i'w ddeall.

## Archebu Hyfforddiant

I archebu hyfforddiant Rhentu Cartrefi ystafell ddosbarth neu ar-lein Rhentu Doeth Cymru; mewngofnodwch i'ch cyfrif yma.

Fel arall, gallwch archebu gyda darparwr cymeradwy. Gweler dewisiadau yma.

Datblygwyd adnoddau defnyddiol i gynorthwyo'r sector i fynd i'r afael â'r newid. Sylwch beth sydd ar gael:

Archebu Hyfforddiant | Lawrlwytho Llawlyfr Rhentu Cartrefi | Adnoddau sydd ar gael

## | Newyddion Twristiaeth



Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad ar sefydlu cynllun trwyddedu ar gyfer holl ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru. Gofynnir am eich barn.

Mae gwestyau, llety gwely a brecwast, carafanau a llety gwyliau eraill i

gyd yn dod o dan gynllun trwyddedu arfaethedig Llywodraeth Cymru.

### Ymysg y buddion y gallai'r cynllyn eu cynnig mae:

- y mecanwaith i fynd i'r afael â phryderon am ddiogelwch a chydymffurfio
- cronfa ddata cynhwysfawr o bwy sy'n gweithredu yn y diwydiant a
- bod yn werthfawr er mwyn deall hyd a lled, lleoliad ac effaith y diwydiant yn economaidd ac ar gymunedau lleol.

Y nod yn fras yw sicrhau chwarae teg fel rhan o ymateb hirdymor i'r heriau mawr a wynebir wrth golli eiddo preswyl mewn llawer o gymunedau yng Nghymru, tra'n gwella'r profiad a diogelwch i ymwelwyr.

Mae'r ymgynghoriad ar agor tan 17 Mawrth. Gweler yr ymgynghoriad yma:

Ymgynghoriad Llety i Ymwelwyr

---

## | Diogelwch Eiddo



## Mae synwyryddion carbon monocsid yn rhoi tawelwch meddwl i breswylwyr a gwell amddiffyniad rhag gwenwyno carbon


## monocsid

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad ar ganfod carbon monocsid mewn llety preswyl. Byddai'r cynigion hyn yn mynnu bod larymau carbon monocsid yn cael eu gosod ger offer hylosgi sefydlog sydd â ffliwiau a hynny ar gyfer unrhyw fath o danwydd ym mhob adeilad preswyl. Mae hyn yn adeiladu ar y gwelliannau a sicrhawyd eisoes i gartrefi rhent preifat drwy Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016; lle mae gofyniad cael larymau carbon monocsid mewn unrhyw ystafell gydag offer llosgi nwy, olew neu danwydd solet.

Mae'r ymgynghoriad ar agor tan 17 Mawrth. [Gweler yr ymgynghoriad yma](#).

---

## | Effeithlonrwydd Ynni




# Dangosfwrdd Perfformiad Ynni wedi'i lansio

Mae Rhentu Doeth Cymru yn raddol yn cyflwyno dangosfyrddau rhyngweithiol

yn lle adroddiadau misol sefydlog.

Edrychwch ar ein data perfformiad ynni diweddaraf. Mae hyn yn gam positif ymlaen. Mae'n rhoi gwybodaeth strategol hynod werthfawr am berfformiad ynni'r sector rhentu preifat. Mae 98% o'r sector rhentu preifat yn cydymffurfio â deddfwriaeth Isafswm Effeithlonrwydd Safonol. Er bod hyn yn gysur, mae mwy o waith i'w wneud. Bydd y data hwn yn cynorthwyo llunwyr polisi llywodraethol ac asiantaethau gorfodi i ddatblygu atebion a thargedu adnoddau.

Am fwy o wybodaeth neu i ofyn am gyngor ar sut i wella perfformiad ynni eich eiddo rhent cliciwch yma.

Dangosfwrdd Perfformiad Ynni

Rhentu Doeth Cymru | Rent Smart Wales
Copyright © 2015-2022

Rhentu Doeth Cymru | Rent Smart Wales
Blwch PO / PO Box 1106 Caerdydd /
Cardiff CF11 1UA

rhentudoeth.llyw.cymru
rentsmart.gov.uk

*Rydych wedi derbyn y cylchlythyr hwn gan eich bod wedi nodi ar eich cyfrif eich bod yn hapus i dderbyn newyddion gennym ni a'n partneriaid.*

*Os hoffech newid eich opsiynau cyswllt neu iaith, gallwch wneud drwy fewn gofnodi i'ch cyfrif yma.*

Rhentu Doeth Cymru | Rent Smart Wales, Blwch / PO Box 1106, Caerdydd / Cardiff, Cymru / Wales CF11 1UA, United Kingdom

You may unsubscribe or change your contact details at any time.